

Teitl:	Cymhorthwyr Arlwyo
Lleoliad:	Yr Holl Saint Ysgol Gynradd RC, Glyn Ebwy
Cyfarwyddiaeth:	Yr Amgylchedd
Swydd Rhif:	Amrywiol (gweler islaw)
Cyflog:	Gradd 2 (£23,656 - £24,404 pro rata/y flwyddyn)
Oriau:	15 x awr yr wythnos - Cyfnod Penodol 31 Mawrth 2025
Cyswllt:	Angela Meredith, Arweinydd Tîm Cynorthwyo 01495 355653

Crynodeb o'r Swydd

Bydd angen i chi gynorthwyo Cogydd yr Ysgol a'r Cogydd Cynorthwyo gyda dyletswyddau cyffredinol o fewn y gegin.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfleoedd ar gael o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd i Gymhorthwyr Arlwyo weithio dan oruchwyliaeth y Cogydd mewn Gofal a/neu Gogydd Cynorthwyo i gynorthwyo a chyflawni unrhyw gyfarwyddiadau a roddir i baratoi a gweini neu glirio bwyd, golchi llestri, prosesau glanhau neu drin arian.

Byddwch yn barod i weithio oriau ychwanegol ar unrhyw amser resymol o'r dydd fel sydd angen er mwyn sicrhau fod yr uned arlwyo yn rhedeg yn llyfn.

Bydd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus gymhwyster Lefel 2 Diogelwch Bwyd ac yn barod i ddilyn unrhyw hyfforddiant a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer y swydd.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swyddi gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gymraeg i Wneud Cais am Swydd.

I gael gwybodaeth am ailgyflogaeth ac ail-gyflogi cyn-weithwyr, cyfeiriwch at Bolisi Tâl y Cyngor.

Dyddiad Cau: 19 Rhagfyr 2024

Dyddiad Cyfweiliadau: 8/9 Ionawr 2025